

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

Nos Lun, 23^{ain} o Ionawr, 2012

Preseanol: Dafydd Williams (Cadeirydd), Linda Morris (Is Gadeirydd), John Morris, Eleri Jones, Olwen Jones, Gwyn Roberts

Simon Jones (Canolfan Cydweithredol Cymru), Ffion Wyn Roberts (Swyddog Adfywio Bro)

Ymddiheuriadau: Emyr Jones, Alan Evans (Cynghorydd Sir)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes a blwyddyn newydd dda i bawb
2. Rhoddodd Ffion Wyn Roberts a Simon Jones gyflwyniad ar y band llydan a rhanwyd ffurflenni cais am grant hyd at £1000 y tŷ. Gweler nodiadau manwl)

Cytunwyd ar Gynllun Tymor Byr: unigolion sydd mewn gwir angen i fynd am y lloeren unigol ar hyn o bryd.

Cynllun Tymor Hir: Rhoi gwybod drwy'r Cyfnod ar sut i wirio cyflymder y We a gwahodd trigolion i gysylltu gyda Mrs Linda Morris os oes diddordeb ganddynt mewn gwella'r derbyniad.

Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn i'r ddau am eu cymorth.

3. Nid oedd angen i neb ddatgan buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Rhagfyr
5. Materion yn codi o'r Cofnodion:
 - 5.1. Derbyniwyd Rhestr Claddedigaethau yn Llangywer a bwrcaswyd gan Gymdeithas Hanes Teuluol Gwynedd. Cytunwyd i'w fenthyg i Gynghorydd arall i'w ddarllen ym mhob cyfarfod. Cytunwyd i chwilio yn y cut am gynllun y fynwent yn y Gwanwyn.
 - 5.2. Ymateb i'r angen am fwy o finiau - derbyniwyd neges gan y Cyngh Alan Evans bod ail-edrych ar sefyllfa biniau'r ardal yn digwydd wrth i'r biniau brown wythnosol cael eu cyflwyno.
 - 5.3. Derbyniwyd ymateb positif dros y ffôn i gais am arwydd gweladwy ar stad Plas Onn.
 - 5.4. Mesur cyflymder: gosodwyd y mesurydd ar y bont, ond mae'r broblem rhwng y bont a'r Neuadd. Clerc i ohebu eto.

6. Trafod Gohebiaeth

- 6.1. Cytunwyd i gymeradwyo'r cais cynllunio i adeiladu estyniad deulawr i'r Gilros, Llangywer
- 6.2. Derbyniwyd llythyr yn nodi caniatâd i osod paneli solar ar sied Tŷ Isaf Llwyneinion
- 6.3. Derbyniwyd llythyr yn nodi caniatâd i wneud gwelliannau wrth Neuadd Llangywer
- 6.4. Ystyriwyd Ymgynghoriad ar roi organau a chytunwyd gyda'r newid arfaethedig yn y Ddeddf.

7. Materion ariannol

- 7.1. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol

- 7.2. Cytunwyd i arddangos y Datganiad Cyllidol ar hysbysfwrdd y Neuadd am bythefnos.
Cytunwyd i dalu anfoneb Hacker Young.
- 7.3. Cytunwyd ar braesept o £2040.
- 7.4. Cytunwyd i dalu costau'r clerc.
- 7.5. Cytunwyd i dalu costau teithio'r Cadeirydd i gyfarfod yn Nhrawsfynydd.
- 7.6. Cytunwyd i gyfrannu £50 tuag at Eisteddfod yr Urdd, Cylch Penllyn.
- 8. Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cynrychiolwyr ar gyfarfodydd diweddaraf Partneriaeth Penllyn